## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

## Asesiad o Les Lleol 2022:

# Crynodeb

*Cyflwyniad*

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal unwaith bob pum mlynedd.

Cafodd yr ail Asesiad o Les Lleol ei lunio gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe (BGC), sef partneriaeth o asiantaethau cyhoeddus sy'n cydweithio i wella gwasanaethau lleol. Ei nod yw rhoi darlun cynhwysfawr o les pobl a chymunedau yn Abertawe, a chyfleu'r prif ffactorau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol sy'n llywio bywydau pobl.

Prif ddiben yr asesiad yw darparu'r sylfaen dystiolaeth i lywio Cynllun Lles Abertawe yn 2023 sy'n anelu at wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddinasyddion, gan gynnwys set o amcanion lleol a chamau i fynd i'r afael â nhw. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun ar gael yn www.abertawe.gov.uk/bgc.

Mae Asesiad 2022 wedi'i strwythuro o amgylch y pedwar 'dimensiwn' o les yn y Ddeddf: cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r asesiad wedi'i lunio mewn dau gam; yn gyntaf, cafodd dogfen ddrafft ei llunio a'i rhannu mewn ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2022, gyda'r adborth yn cael ei ystyried yn ofalus gan grŵp aml-asiantaeth a chytunwyd ar newidiadau a gynhwyswyd mewn dogfen ddiwygiedig ym mis Mai 2022. Rydym wedi rhestru'r holl gynigion ymgynghori a dderbyniwyd, ynghyd â sut y gwnaethom ymateb i bob un mewn Adroddiad Adborth o'r Ymgynghoriad ar wahân.

Mae'r asesiad hwn wedi'i seilio'n bennaf ar dystiolaeth ystadegol ac ymchwil ond mae safbwynt dinasyddion a phrofiad byw yn helpu i ddarparu dogfen fwy cytbwys ac ystyrlon. I'r perwyl hwn, nod arolwg o farn pobl Abertawe ar les yn hydref 2021 oedd ein helpu i ddeall yr hyn sydd bwysicaf i unigolion yn Abertawe a beth mae hyn yn ei olygu i'n heconomi, ein cymdeithas, ein hamgylchedd a'n diwylliant. Mae rhagor o wybodaeth am yr arolwg hwn wedi'i chynnwys yn yr asesiad llawn a'r atodiadau.

Cyn y pedair pennod sy'n seiliedig ar ddimensiwn, mae Proffil Abertawe yn darparu ystod o wybodaeth gyd-destunol am Abertawe a'i phobl. Mae'n cynnwys yr ystadegau diweddaraf (ym mis Mai 2022) am y chwe Ardal Gymunedol a nodwyd yn Abertawe, dwysedd poblogaeth, strwythur oedran, newid demograffig, amcanestyniadau, aelwydydd a nodweddion poblogaeth. Fodd bynnag, gall gwybodaeth leol o Gyfrifiad 2021 sy'n dod i'r amlwg yn ddiweddarach yn 2022 newid rhannau o'r darlun hwn.

Mae'r Asesiad o Les Lleol llawn ar gyfer Abertawe 2022, a'i atodiadau, ar gael yn www.abertawe.gov.uk/asesiadbgc2022. Er bod y ddogfen lawn yn cynnwys cryn fanylder am sawl agwedd neu bwnc sy'n gysylltiedig â lles yn Abertawe, nod y crynodeb hwn yw dod â'r materion allweddol o fewn pob un o'r pedair prif bennod i'r amlwg.

## *Llesiant cymdeithasol*

Lles cymdeithasol efallai yw'r un mwyaf cymhleth ac eang o'r pedwar dimensiwn o les, ac nid yw'n hawdd ei ddiffinio. Yn syml, gall ymwneud yn fwyaf uniongyrchol â chymdeithas a bywydau pobl yn gyffredinol.

Mae pandemig COVID-19 wedi rhoi pwysau sylweddol ar ddinasyddion, staff a gwasanaethau. Mae'r rhain wedi effeithio ar rai grwpiau yn fwy nag eraill, gan gynnwys plant a phobl ifanc, pobl hŷn, cymunedau o leiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau.

Y prif faterion sy'n cael eu hamlygu yn y bennod yw:

Mae'r boblogaeth yn Abertawe yn newid, gyda nifer cynyddol o oedolion hŷn. Mae'r galw am ofal cymdeithasol ar gyfer oedolion yn cynyddu. Mae yna garfan gymharol fach ond arwyddocaol o blant, pobl ifanc a theuluoedd y mae angen cymorth statudol arnynt gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae anawsterau sylweddol yn ymwneud â recriwtio a chadw staff y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae nifer sylweddol o ofalwyr di-dâl (gan gynnwys gofalwyr ifanc).

Bu canlyniadau da i blant yn eu blynyddoedd cynnar drwy waith amlasiantaeth cryfach. Mae trefniadau hirsefydlog enghreifftiol mewn perthynas ag ymgysylltu â phlant a phobl ifanc bellach yn cael eu hymestyn i bobl hŷn.

Mae anghydraddoldebau cynyddol (gwahaniaethau mewn cyfleoedd, hawliau, statws ac arian) ar draws gwahanol gymunedau yn Abertawe sy'n effeithio ar ystod o feysydd fel mynediad at addysg, math o gyflogaeth, tlodi, mynediad at wasanaethau ac adnoddau eraill, ac ystod o ganlyniadau iechyd.

Mae tlodi a'r argyfwng costau byw yn broblem fawr, gyda chynnydd yn y galw am fanciau bwyd, cymorth gyda chostau ynni a chyngor ar ddyledion, er enghraifft. Mae incwm ac enillion cyfartalog yn Abertawe yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol, gyda chynnydd mewn costau byw yn effeithio ar y rheini ar yr incwm isaf fwyaf. Bydd allgáu digidol, oherwydd diffyg fforddiadwyedd neu fynediad at ddyfeisiau a/neu fand eang, yn effeithio ar fynediad at wasanaethau a lefel y cysylltiad y mae cymunedau yn Abertawe yn ei brofi.

Mae'r galw am dai cymdeithasol yn parhau'n uchel o'i gymharu â'r cyflenwad (yn enwedig unedau 1 ystafell wely) gyda rhestrau aros hir ac angen cynyddol yn y dyfodol. Mae nifer o bobl yn methu sicrhau tai cymdeithasol ac mae nifer y bobl sy'n rhentu yn y sector preifat wedi treblu yn y 30 mlynedd diwethaf. Mae rhenti preifat yn aml yn llawer uwch na rhenti ar gyfer tai cymdeithasol, ac mae'r amodau'n tueddu i fod yn waeth, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni gwael.

Mae cynnydd sylweddol mewn adroddiadau o Drais Domestig (yn enwedig yn ystod y pandemig). Mae achosion o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol hefyd yn cynyddu, ac yn Abertawe y mae'r lefelau uchaf o wenwyn cyffuriau angheuol yng Nghymru.

Mae'r economi gyda'r hwyr a chyda'r nos yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi leol ac adfywio. Ceir rheolaeth amlasiantaeth a thraws-sector da yn lleol, ond mae pryderon am ganfyddiadau o ddiogelwch, trais a diogelwch menywod ifanc yng nghanol y ddinas.

Mae’r rhaniad a’r anghydraddoldeb cynyddol rhwng cymunedau cefnog a’r rheini sy’n byw mewn cymunedau mwy difreintiedig yn amlygu ei hun mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys lefelau cynyddol o droseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac aflonyddwch cymunedol. Mae lefelau Troseddau Casineb a gofnodwyd yn isel, ond mae digwyddiadau'n cynyddu. Ceir darlun cymysg o ran Cydlyniant Cymunedol; mae Abertawe'n Ddinas Noddfa ac mae wedi ymrwymo i ddod yn Ddinas Hawliau Dynol, ond mae hefyd rywfaint o elyniaeth tuag at fentrau, enghreifftiau o eithafiaeth a digwyddiadau lleol diweddar.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd iechyd meddwl a lles da yn yr asesiad mewn nifer o feysydd. Arweiniodd y pandemig at lefelau sylweddol o arwahanrwydd cymdeithasol, unigrwydd a phryder ynghylch pryderon ariannol, yr oeddent i gyd wedi effeithio’n negyddol ar les meddwl pobl. Amlygwyd pwysigrwydd cefnogi teuluoedd yn ystod beichiogrwydd a'r blynyddoedd cynnar gyda chefnogaeth iechyd meddwl. Roedd cydnabyddiaeth hefyd o'r angen i fynd i'r afael â ffactorau sy'n arwain at bwysau afiach, ysmygu a chyfraddau uwch o fwydo ar y fron. Mae cysylltu ac ymgysylltu â phobl i gefnogi iechyd meddwl a lles da wedi bod yn fwy heriol yn ystod y pandemig.

## *Llesiant economaidd*

Er mwyn hwyluso agweddau ar economi wydn a chynaliadwy i'w phreswylwyr, mae angen sicrhau bod gan Abertawe'r isadeiledd cywir yn ei le; sylfaen fusnes gref, amrywiol a chynyddol sy'n creu cyfleoedd gwaith; gan ddarparu'r sgiliau cywir i bobl fanteisio ar y cyfleoedd hyn a sicrhau bod gan aelwydydd incwm digonol.

Y prif faterion sy'n cael eu hamlygu yn y bennod yw:

Mae Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) y pen ar ei hôl hi o'i gymharu â'r DU ac mae perygl y bydd Abertawe’n disgyn ymhellach y tu ôl i'r DU o ran twf economaidd. Mae gan Abertawe sylfaen fusnes gref a lefel iach o ffurfiannau busnes newydd, ond gwrthbwysir hyn gan gyfraddau goroesi busnes gwael a thwf sy’n tanberfformio mewn GYG.

Mae cynrychiolaeth Abertawe yn y sectorau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol lle mae swyddi'n fwy tebygol o fod â chyflogau gwell ac yn gofyn am sgiliau uwch, yn arbennig o wael. Felly, byddai twf yn y sector hwn yn darparu mantais i’r economi ehangach ac yn helpu i gynyddu incwm a lles pobl.

Mae swyddfeydd Abertawe wedi dyddio ac o ansawdd gwael. Oherwydd rhenti isel a phrisiau eiddo yn Abertawe, mae bwlch dichonoldeb sy'n atal datblygiadau rhag dod ymlaen o'r sector preifat.

Mae angen i weithleoedd allweddol gael eu cysylltu'n well â llwybrau teithio llesol a chynaliadwy gydag amserlennu i ddarparu ar gyfer patrymau shifft. Bydd hyn yn helpu pobl ddi-waith i fanteisio ar gyfleoedd gwaith a chynyddu lles. Mae angen mwy o lwybrau ar draws y ddinas hefyd.

Mae'r pum mlynedd diwethaf wedi gweld nifer cynyddol o bobl â lefelau cymhwyster gwell, ac mae Abertawe bellach yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae tystiolaeth yn dangos bod diffyg sgiliau a phrofiad yn atal pobl rhag cael swyddi sy'n mynnu lefel sgiliau uwch ac yn eu cadw mewn gwaith sy'n talu cyflogau isel neu ddiweithdra. Felly mae'n bwysig parhau i uwchsgilio'r gweithlu lleol er mwyn galluogi codi mwy o bobl allan o dlodi a gwella'u lles economaidd.

Mae prinder sgiliau yn bodoli mewn nifer o ddiwydiannau gan gynnwys gofal, adeiladu a lletygarwch. Yn ogystal mae angen sgiliau digidol ar gyfer y pedwerydd chwyldro diwydiannol yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer datblygu a chynnal a chadw isadeiledd gwyrdd.

Mae data cyrhaeddiad addysgol ar gael hyd at 2019, ond mae effaith y pandemig a'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn golygu mai ychydig iawn o ddata fydd yn y dyfodol i ysgolion cynradd, a data wedi'i newid fydd ar gael ar gyfer ysgolion uwchradd.  Mae disgyblion ysgolion Abertawe'n gwneud cynnydd da ar y cyfan, gyda'r canlyniadau'n cymharu'n ffafriol â ffigurau cenedlaethol.  Fodd bynnag, mae yna ddisgyblion sydd ar ei hôl hi o'u cymharu â'u cyfoedion, yn enwedig y rheini o gefndiroedd mwy difreintiedig.

Maes sy'n peri pryder na roddwyd sylw iddo yn y gorffennol yw'r cynnydd yn nifer yr achosion o faterion iechyd meddwl ymhlith pobl ddi-waith a phobl anweithgar yn economaidd. Mae'r pandemig wedi newid rhagolygon llawer o bobl ac mae llawer yn dal i ofni rhyngweithio yn y gweithle. Heb y gefnogaeth angenrheidiol, gallai rhagolygon economaidd yn y dyfodol gael eu heffeithio.  Mae bwlch hefyd mewn cymorth cyflogadwyedd i bobl iau a'r rheini dros 55 oed.

Er bod ffigurau wedi awgrymu bod safon byw yn Abertawe wedi gwella, mae Abertawe yn disgyn islaw cyfartaleddau Cymru a'r DU. Nid yw twf mewn Incwm Gwario Gros Aelwydydd yn Abertawe wedi cadw'n gyson â lefelau Cymru a'r DU dros y 5 mlynedd diwethaf (2014-2019).

Mae llawer o'r data incwm ac enillion sydd ar gael ar gyfer yr asesiad o'r cyfnod cyn y pandemig ac mae hefyd yn gyfyngedig o ran amlygu'r gwahaniaethau rhwng ardaloedd lleol yn Abertawe. Mae enghreifftiau o amddifadedd ar draws y sir.

## *Llesiant amgylcheddol*

Newid yn yr hinsawdd a cholli byd natur yw'r materion mwyaf arwyddocaol i Abertawe. Mae'r datganiad o argyfyngau hinsawdd a natur ynghyd ag ymrwymiadau polisi 'sero net' cenedlaethol a lleol yn dangos yr heriau niferus a brys sy'n wynebu amgylchedd Abertawe. Yn sail i hyn mae patrymau presennol o ddefnydd a chynhyrchu anghynaladwy, sy'n diraddio ein hamgylchedd naturiol ac yn effeithio ar iechyd a lles pobl. Mae'n hanfodol bod y newid i economi sero net ac adfywiol yn un sy'n gyfiawn ac yn deg.

Y prif faterion sy'n cael eu hamlygu yn y bennod yw:

Darlun cymysg yw cadernid ecosystemau Abertawe. Mae ystod o bwysau sylweddol yn parhau i fygwth cynefinoedd a rhywogaethau tameidiog ac ynysig. Mae angen adfer a chysylltu cynefinoedd ar draws y sir fel eu bod yn gweithredu'n effeithiol ac yn darparu buddion o ran lles.

O'r 23 corff dŵr yn Abertawe, dim ond 26% sydd â 'statws ecolegol da', sy'n dangos cadernid isel. Mae'r rhesymau'n cynnwys gorlifiad carthion cyfun, llygredd o ffermio a diwydiant, addasiadau ffisegol, rhwystrau rhag pysgod yn mudo, bywyd gwyllt ymledol ac anfrodorol, a diffyg mynediad i amgylcheddau dŵr naturiol, dealltwriaeth ohonynt a diffyg gofal amdanynt.

Mae tua 12,000 eiddo mewn perygl o lifogydd. Mae nifer yr eiddo, y gwasanaethau a'r isadeiledd sydd mewn perygl yn Abertawe yn y dyfodol bron yn sicr o dyfu o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, a bydd costau i gynnal a chadw amddiffynfeydd llifogydd hefyd yn cynyddu.

Mae newid i ddefnydd tir i gynyddu gorchudd coed, gwella iechyd pridd, adfer mawndiroedd, a chynyddu cynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi'u nodi mewn polisïau datgarboneiddio, adfer natur, lliniaru llifogydd a sychder, a chyflenwi aer a dŵr glân. Bydd ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur yn debygol o arwain at gyfnewidiad rhwng y rhain a defnyddiau tir eraill sy'n cystadlu, e.e. cynhyrchu bwyd, tai, datblygu.

Mae gan isadeiledd gwyrdd (IG) fuddion lluosog ac mae'n gwella iechyd a lles; dylai gwaith barhau gyda datblygwyr i ddarparu lleoedd iach, unigryw o ansawdd, gyda chefnogaeth economi leol fedrus a gwybodus i gyflawni a chynnal IG.

Am nifer o flynyddoedd yn Abertawe mae crynodiadau NO2 wedi gostwng, tra bod gronynnau (PM10 a PM2.5) wedi'u sefydlogi yn gyffredinol. Gall digwyddiadau tanau gwyllt ac ansawdd aer gwael arwain at gynnydd mewn crynodiadau oherwydd newid yn yr hinsawdd.

Y defnydd o geir yw'r dull amlycaf o deithio o hyd gyda lefelau isel o feicio a defnydd o gludiant cyhoeddus. Bydd cefnogi Teithio Llesol yn dod â nifer o fanteision amgylcheddol, cymunedol ac iechyd. Mae'n bosib y bydd angen diwygiadau mawr i wella ansawdd, hygyrchedd a fforddiadwyedd cludiant cyhoeddus.

Mae perfformiad ailgylchu cyffredinol y cyngor yn parhau i fodloni targedau Llywodraeth Cymru. Mae cyfraddau ailgylchu a chompostio gwastraff cartref yn parhau i godi, ac mae cyfanswm y gwastraff sy'n cronni a lefelau gwastraff gweddilliol yn Abertawe yn parhau i ostwng.

Mae'r sector cyhoeddus yn Abertawe yn arwain ar yr agenda datgarboneiddio, y gostyngiad yn y defnydd o ynni a'r newid i dechnolegau carbon isel ac adnewyddadwy.

Mae diffyg data ac adnoddau yn gwaethygu problemau gan fod angen gwell tystiolaeth a dealltwriaeth o gyflwr adnoddau a systemau naturiol lleol i sicrhau bod y penderfyniadau rheoli gorau posib yn cael eu gwneud.

Mae'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol yn dweud wrthym fod angen trawsnewid brys ac eang yn y systemau bwyd, ynni a thrafnidiaeth, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob un ohonom wneud newidiadau i'r ffordd rydym yn byw a sut rydym yn cynllunio ein dyfodol economaidd - rhaid mynd i'r afael â'r gwir achosion, nid dim ond y materion sy'n codi, a bydd angen sicrhau digon o adnoddau a chydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus a chymdeithas ehangach.

### *Llesiant diwylliannol*

Mae lles diwylliannol yn cael ei ystyried yn derm cyfannol sy'n trafod llu o bynciau gan gynnwys twristiaeth, chwaraeon ac iechyd, gwirfoddoli yn y Gymraeg a chyfranogiad cymunedol.

Byddai gweledigaeth ar y cyd a Strategaeth Ddiwylliannol newydd ar gyfer y ddinas – o fewn y ffiniau rhanbarthol yn ddechrau da i helpu i gydlynu a chyfarwyddo cynllun gweithredu newydd ar gyfer diwylliant, fel etifeddiaeth y blaenoriaethau adfywio, cymdeithasol, economaidd, addysgol ac amgylcheddol presennol.

Y prif faterion sy'n cael eu hamlygu yn y bennod yw:

Oherwydd ei effeithiau dwys ar bob agwedd ar les, o'r agweddau corfforol mewn perthynas â chwaraeon ac iechyd i'r cymdeithasol gyda mynediad at ddysgu mewn lleoliadau diwylliannol, mae

rhaglen o weithgareddau diwylliannol sy’n hygyrch ac yn fforddiadwy ac ar gael i amrywiaeth gynyddol o bobl yn hanfodol. Yn ogystal, mae canolbwyntio gweithgareddau ar grwpiau agored i niwed yn cefnogi tegwch ledled y ddinas ac yn atal unrhyw un rhag cael ei eithrio'n ddiwylliannol yn dibynnu ar ei amgylchiadau. Er mwyn gwneud yr ymdrechion gorau i sicrhau bod nodweddion gwarchodedig yn cael eu cynrychioli yng nghynigion diwylliannol y ddinas, rhoddwyd ystyriaeth i amrywiaeth wrth gynllunio prosiectau drwy Addewid newydd i gynrychioli ein holl gymunedau. Mae prosiect The World Reimagined yn un enghraifft gyfredol.

Cafodd epidemig y Coronafeirws a'r cyfyngiadau teithio effaith negyddol sylweddol ar y diwydiant twristiaeth. Er bod y broses adfer wedi dechrau ac yn cael ei chynorthwyo gan lawer o sefydliadau, bydd yn cymryd amser i ddychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig. Mae ymwelwyr yn gwario'n lleol, mae'r gwariant hwnnw'n cefnogi cyflogaeth sector cynradd yn ogystal â chyflogaeth sector uwchradd - mae'r sector twristiaeth felly'n chwarae rhan sylweddol yn economi Abertawe. Mae digwyddiadau mawr yn gweithredu fel ysgogwr sylweddol ar gyfer twristiaeth. Mae tair her allweddol wrth fynd i'r afael â thwristiaeth gynaliadwy:

- Natur dymhorol – ymestyn y tymor a chynyddu twristiaeth allfrig yn ystod y misoedd tawelach
- Gwariant – annog ymwelwyr i dreulio mwy o amser a gwario mwy o arian yn Abertawe
- Lledaeniad – annog ymwelwyr i archwilio rhannau eraill o Abertawe.

Er mwyn lleihau'r gwahaniaethau mewn cyfranogiad ffurfiol ac anffurfiol mewn gweithgaredd corfforol, mae angen rhaglen barhaus i ddatblygu a gwella'r isadeiledd presennol. Bydd hyn yn cael ei hwyluso drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ataliol a gweithgareddau sy'n seiliedig ar ymyriad, yn ogystal â chyflwyniad cynnar i weithgarwch corfforol a meithrin gallu gyda phartneriaid cymunedol. Er mwyn cynyddu a chynnal cyfranogiad fel rhan allweddol o ffordd iach o fyw, bydd rhaglenni wedi'u targedu sy'n canolbwyntio ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ystadegol yn flaenoriaeth.

Bydd angen gwasanaethau Cymraeg mwy hygyrch ar Abertawe wrth i nifer y siaradwyr Cymraeg gynyddu. Mae'n bosib bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei ystyried fel un sy’n canolbwyntio ar Loegr. Mae angen gweithredu ar ran cyrff cyhoeddus i ddatrys y mater hwn mewn ffordd sy'n gyson â Safonau'r Gymraeg, a fydd o fudd i ddefnyddwyr presennol y Gymraeg a'r rheini a allai fod â diddordeb mewn dysgu'r iaith yn y dyfodol.

Mae gan Abertawe gymuned wirfoddoli gref sy'n cymryd rhan mewn amrywiaeth o sefydliadau, o glybiau chwaraeon lleol i Gyfeillion Parciau, er mae'r gymuned honno'n heneiddio. Gan ganolbwyntio ar gynnwys y gymuned, mae angen cynyddu nifer y gwirfoddolwyr ac ystyried annog pobl ifanc i gymryd rhan weithredol ar bwyllgorau. Mae swyddi gwirfoddolwyr yn darparu gweithgaredd a nod i bobl leol yn ogystal â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, a diwylliannol Cymru.